



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

## Adroddiad Ymchwil (Gorffennaf 2023)

*Ymchwil Ranbarthol i Ddigwyddiadau Hiliol / Bwlio Hiliol / Adrodd / Peidio ag Adrodd mewn Ysgolion ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer, Polisi ac Ymchwil (astudiaeth ar raddfa fach).*

**Prif Ymchwilwyr: *Chantelle Haughton a Dr Susan Davis***

**Manylion cyswllt:**

[chaughton@cardiffmet.ac.uk](mailto:chaughton@cardiffmet.ac.uk) neu [sdavis@cardiffmet.ac.uk](mailto:sdavis@cardiffmet.ac.uk)

Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed, Heol Cyncoed, Caerdydd. CF23 6XD

**Awduron adroddiad yr ymchwil:**

Dr Susan Davis, Chantelle Haughton, Dr John Fernandes, Leon Andrews, Batool Akmal.

**Cyfranwyr:**

Samuel Goold a  
Gemma Maiorano

# Cynnwys

Cydnabyddiaeth	3
Cyd-destun a Chefnidir	4
Crynodeb	5-6
Adolygiad Llenyddiaeth	7 - 8
Manylion Ymchwil: Dulliau	9
Cyfyngiadau ar gyfer yr Ymchwil	10
Canfyddiadau	11 - 15
Safle o fewn yr Ymchwil	16
Argymhellion ar gyfer Polisi/Strategaeth	17-18
Argymhellion ar gyfer Ymarfer	19 -20
Argymhellion ar gyfer Ymchwil yn y Dyfodol	21
Geirfa Dermau	22
Cyfeiriadau	23-25
Atodiadau	26 – 27

# Cydnabyddiaeth

Ariannwyd y gwaith hwn gan Is-grŵp Addysg a Hil Bwrdd Diogelu Gwent 2022- 2023. Hoffem ddiolch yn ddiffuant i'r holl gyfranwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil hon. Rydym hefyd yn cydnabod dewrder gonest ein cyfranogwyr, boed yn bobl ifanc neu oedolion, wrth rannu profiadau hiliol gyda ni. Eu cyd-ddyhead yw y bydd lleisiau'n dod â newid iddyn nhw a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

# Cyd-destun a Chefndir

Nod y prosiect ymchwil hwn sydd ar raddfa fach yw archwilio profiadau o hiliaeth a bwlio hiliol i fesur a dogfennu'r rhesymau pam mae dysgwyr mewn pum ardal awdurdod lleol (ALI) yn tanadrodd neu'n methu ag adrodd am ddigwyddiadau o hiliaeth neu ddigwyddiadau hiliol sy'n digwydd yn amgylchedd eu hysgol. Rydym hefyd yn anelu at gyflwyno syniadau ar yr hyn y gall yr ALI ei wneud i wella'r sefyllfa hon, gyda golwg ar adeiladu ymwybyddiaeth a systemau cadarn ar gyfer cefnogaeth, ymyriadau ac adrodd a chyfluoedd i leihau achosion o hiliaeth / bwlio hiliol o fewn ysgolion yn y dyfodol. Yn ôl ChildLine (2022, ar-lein), mae bwlio hiliol yn fath o fwlio sy'n ymwneud yn benodol â chael eich targedu oherwydd 'hil, ethnigrwydd neu ddiwylliant'. Mae adroddiad Macpherson (1999, t.28) yn diffinio hiliaeth fel: 'ymddygiad neu eiriau neu arferion sy'n rhoi anfantais neu fantais i bobl oherwydd eu lliw, diwylliant neu darddiad ethnig'; a digwyddiad hiliol fel: 'unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefwr neu unrhyw berson arall yn ei ystyried yn hiliol'. Mae natur digwyddiadau hiliol neu fwlio hiliol yn ymwneud ag oedran y cyflawnwr a difrifoldeb, o alw enwau hiliol neu allgáu cymdeithasol i drais corfforol (Verkuyten a Thijs, 2002 Cremin, 2003).

O gynnal sifftio llenyddiaeth gychwynnol yn y maes hwn, canfuom mai cyfyngedig yw'r ymchwil mewn perthynas â dealltwriaeth o fwlio hiliol / adrodd am ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion yng Nghymru / y DU. Ymgysylltodd ein hymchwili yn rhagweithiol â phobl ifanc o gefndiroedd mwyafrif byd-eang (GM) a chefnidiroedd Sipsiwn/Roma/Teithwyr yn Ne-ddwyrain Cymru. Casglwyd eu barn, trwy gyfres o sgysiau grŵp ffocws ac mewn ymgynghoriad â'u rhieni ac arweinwyr ysgol. Helpodd y broses hon ni i gael gwell dealltwriaeth o safbwynt cydraddoldeb hiliol, mewn perthynas ag achosion o hiliaeth, bwlio hiliol a materion yn ymwneud ag adrodd / diffyg adrodd. Roedd y sampl ymchwil yn cynnwys 10 ysgol yn ardal Dde-ddwyrain Cymru; 5 ysgol gynradd (dysgwyr o flwyddyn 5/6) a 5 ysgol uwchradd (blynyddoedd 7-10). Roedd pob ysgol a gymerodd ran wedi awgrymu a darparu ystod o ddysgwyr/rhieni/staff i gyfrannu at grŵp ffocws (uchafswm o 6 yn y grŵp). Dewiswyd ysgolion i gynrychioli cymysgedd o ysgolion gwledig, canol dinas ac ysgolion ffydd ac yn ôl maint ysgol a dalgylch.

Cynhaliwyd ymchwil, cynhyrchu data / coladu rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023 drwy'r rhychwant o sgysiau ymchwil grwpiau ffocws. Cafwyd cyfnod o streic gan yr undebau ymhlith yr athrawon a effeithiodd ar yr amserlen ymchwil wreiddiol a chyfranogiad. Dadansoddwyd data gan ddefnyddio fframwaith thematig, Braun a Clarke (2006). Mae Shah (2013) yn nodi bod y cyseiniant epistemolegol yn y defnydd o gyfweiliadau grŵp ffocws wedi'u fframio fel sgysiau i archwilio materion diwyllianol. Defnyddiwyd methodoleg adeiladu, gan ein bod yn myfyrio ar ac yn dadansoddi elfennau o haenau o realiti byw a luniwyd yn gymdeithasol ar gyfer cyfranogwyr (Garcia et. al., 2015).

Nod yr ymchwil oedd deall y deinamig cymhleth hwn. Athrawon ac academyddion o gefndiroedd GM oedd y tîm ymchwil, sy'n rhoi haen ychwanegol o ddealltwriaeth ac empathi gyda'r broses. Bydd data a gesglir yn cael ei ysgrifennu fel astudiaethau achos. Defnyddir astudiaethau achos yn aml i fyfyrion ar 'sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth' (Van Maanen, 2011) ac mae hyn yn crynhoi'r deinamig ymchwil yma mewn perthynas â'r 'sgysiau dewr' a gawsom gyda'r cyfranogwyr (Davis, et al., 2021, t.14). Archwiliwyd dadansoddiad data ymhellach trwy godio, gan ddefnyddio NVivo. Rydym yn rhagweld y bydd data yn arwain at 'fap gweledigaeth rhithwir' y byddwn yn ei gyflwyno ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno a'i drafod. Felly, wrth symud ymlaen, bydd hyn yn arwain at gyd-lunio a gweithredu argymhellion ar gyfer dysgu proffesiynol, strategaeth, a diwygio polisi.

# Crynodeb

Cynhyrchodd yr ymchwil chwe thema fel y nodir isod:

<b>Thema 1:</b> <i>Hiliaeth ganfyddedig / digwyddiadau hiliol ac Adrodd am Hiliaeth / Digwyddiadau Hiliol</i>
<b>Thema 2:</b> <i>Peidio ag adrodd am hiliaeth / Rhesymau</i>
<b>Thema 3:</b> <i>Lles / Hunan-barch y Dysgwr</i>
<b>Thema 4:</b> <i>Materion Ysgol / Cymunedol</i>
<b>Thema 5:</b> <i>Ethos yr Ysgol / Ymrwymiad Ysgol</i>
<b>Thema 6:</b> <i>Canfyddiadau Oedolion</i>

## Pwyntiau allweddol o 'lais y cyfranogwr' sy'n berthnasol i'r themâu sy'n dod i'r amlwg:

**\*Nid yw'r rhain wedi'u rhestru mewn unrhyw drefn benodol**

1. Mae hiliaeth yn gyffredin ym mywydau cyfranogwyr yr ymchwil o fewn eu hysgolion a'u cymunedau yng Nghymru.
2. Mae angen archwilio materion yn ymwneud â defnyddio 'cellwair' sydd â chynodiadau hiliol a gweithredu arnyn nhw yn niwylliant yr ysgol a'r gymuned.
3. Mae pocedi o arfer da yn digwydd yng Ngwent, gyda rhywfaint o arfer a meddwl gwrth-hiliaeth cadarnhaol.
4. Mae angen terminoleg newydd i gymryd lle'r term Saesneg fel laith Ychwanegol (EAL). Dylai'r wybodaeth fyd-eang hon gael ei fframio mewn model dathlu sy'n symud i fwrdd o fodel diffyg. Dylid ystyried defnyddio dewisiadau eraill megis dysgwyr amlieithog.
5. Mae'n allweddol bod ysgolion yn mynd i'r afael â hierarchaethau a chanfyddiadau cysylltiedig, sy'n ystyried rhai grwpiau diwylliannol mewn ffyrdd negyddol.
6. Mae angen rhoi ystyriaeth gadarn i effeithiau niweidiol hiliaeth i hunan-barch / hunan-werth. Rhaid i ysgolion siarad â'u dysgwyr am eu profiadau a rhoi systemau ar waith i gefnogi dysgwyr Du / Mwyafrif Byd-eang (BGM) a Sipsiwn/Roma/Teithwyr yn y maes hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru ac egwyddor Cynefin. Mae angen i ysgolion weithio gyda phobl leol sydd â phrofiadau byw a phroffesiynol i gynnal y sgysia hyn yn sensitif.
7. Mae staff treftadaeth BGM, ac yn enwedig staff cyflenwi, hefyd yn agored i ymddygiad microymosodol a hiliaeth yn ei holl ffurfiau amlwg, cudd, systemig a sefydliadol.

*Ymchwil Ranbarthol i Ddigwyddiadau Hiliol / Bwlio Hiliol / Adrodd / Peidio ag Adrodd mewn Ysgolion ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer, Polisi ac Ymchwil. Dr Susan Davis, Chantelle Haughton, Dr John Fernandes, Leon Andrews, Batool Akmal. Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Campws Cyncoed, Heol Cyncoed, Caerdydd, CF23 6XD*

8. Mae angen i ni fynd i'r afael â 'dealltwriaeth ddiwylliannol' ymhlith staff yr ysgol; gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i wallt Affro / steiliau gwallt / diwylliannau / ymagweddau at ymddygiad cymdeithasol ac agweddau eraill / gwisgo Hijabs neu ddillad traddodiadol. Mae dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth ysgol gyfan yn hanfodol i staff ac addysg wrth-hiliaeth i ddysgwyr ar ddealltwriaeth ddiwylliannol ac ymarfer hiliaeth / gwrth-hiliaeth yn benodol ac o fewn ailgynllunio'r cwricwlwm.
9. Mae peidio ag adrodd yn aml yn digwydd. Mae'r dysgwyr yn esbonio eu bod yn betrusgar i adrodd, gan 'nad ydyn nhw eisiau cael ffrindiau i drwbl' neu eu bod nhw'n teimlo nad oedd 'pwynt' gan nad oes dim yn digwydd ac mae hynny'n peri mwy o ofid iddyn nhw eu hunain a'u teulu. Roedd y rhain yn deimladau cyffredin a fynegwyd.
10. Mae angen i ni ddadansoddi sut mae dysgwyr yn adrodd i staff ysgol, a allai fod wedi sbarduno meddwl yn hiliol tuag atyn nhw. Beth yw'r systemau diogelu sydd ar waith ar gyfer hyn? Mae yna ddiwylliant o danadrodd oherwydd peustrer / amharodrwydd / ofn sy'n parhau i gyfnod oedolyn.
11. Mae ein canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen am ddull gweithredu cyson safonol ar gyfer adrodd ac ymdrin â digwyddiadau, y mae'n rhaid ei roi ar waith ledled Gwent – byddai 'canllaw beth i'w wneud ar sut i adrodd am ddigwyddiadau hiliol a beth sy'n digwydd nesaf' yn ddefnyddiol ynghyd â siart llif cadarn yn manylu ar y broses ar gyfer adrodd a chanlyniadau / ymyriadau.
12. Rhaid i rieni a chymuned ehangach yr ysgol, e.e., llywodraethwyr ac oedolion sy'n gweithio mewn ysgolion, allu cael mynediad at hyfforddiant ar feddwl a dysgu gwrth-hiliaeth. Mynegodd rhieni BGM bryder bod gweithwyr cymdeithasol neu grwpiau sy'n cefnogi o'r tu allan i'r system ysgol hefyd angen hyfforddiant ymwybyddiaeth wrth-hiliaeth / ddiwylliannol.
13. Mae angen mecanwaith annibynnol lle mae parti niwtral yn edrych ar ddigwyddiadau hiliol yr adroddir amdany nhw. Dylai'r dysgwyr neu'r aelod o staff sy'n gwneud yr hawliad fod yn hyderus y bydd y mater yn cael ei drin yn gyfrinachol, yn ddiuedd, ac y bydd datrysiaid.
14. Mae angen i holl bolisiau a gweledigaethau'r ysgol sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn ganolog i'r craidd diogelu, dysgu proffesiynol a chwricwla.
15. Mae llawer o waith i'w wneud. Dylai sefydliadau dysgu ystyried cael grŵp llywio gwrth-hiliaeth i rannu'r gwaith adolygu a diwygio ac i gydweithio â rhanddeiliaid cymunedol a gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad.
16. Canfuom anghysondebau ar draws ysgolion yng Ngwent yn ymwneud ag arfer da wrth ymdrin ag adrodd am ddigwyddiadau hiliol ac wrth roi camau gweithredu, ymyriadau a chymorth ar waith. Mae lefelau'r gefnogaeth i ddysgwyr ac oedolion y mae hiliaeth yn effeithio arny nhw yn annigonol ac mae angen eu safoni.
17. Mae angen gweithredu ehangach ledled Cymru, ar ffurf ymgynghoriad a chanllawiau statudol a fframwaith cenedlaethol ar gyfer adrodd a thrin i'w hystyried ar y cyd ar draws yr holl sefydliadau dysgu.

# Adolygiad Llenyddiaeth

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan ymddiriedolaeth Runnymede fod hiliaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn addysg, a bod dyletswydd ar ysgolion ac addysg ehangach i ailddychmygu ac ymrwymo'n 'radical' i wrth-hiliaeth (Joseph-Salisbury, 2021, t.2). Ein rôl yn y broses hon oedd ymchwilio a dysgu o'r ysgolion eu hunain, yr hyn sy'n cael ei ganfod a'r hyn sy'n digwydd. Nid yw'r penbleth hwn a'r materion hyn yn newydd. Soniodd Bhavnani (2001) am bwysigrwydd deall cyd-destun hiliaeth a bwlio hiliol. Awgrymodd fod hyfforddiant EDI oddi ar y silff yn amherthnasol gan fod dealltwriaeth o'r perthnasoedd grym, rhwng ac o fewn grwpiau, yn allweddol wrth ddadansoddi cyd-destun hiliaeth (t.117).

Pryd mae ymwybyddiaeth hiliol yn dechrau mewn plant? Gwyddom o waith ymchwil y gall babanod mor ifanc â thri mis oed wahaniaethu rhwng wynebau lliw gwahanol (Kelly, et al., 2005). Wrth i blant dyfu cyn oed ysgol, maen nhw'n dangos hoffter o chwarae gyda chyfoedion o'r un hil (Leman a Lam, 2008; Girouard, Stack ac O'Neill-Gilbert, 2011). Mae Sullivan, Wilton ac Apfelbaum (2020) yn awgrymu bod oedolion yn gohirio sgysiau gyda phlant am hil, gan eu bod yn tanamcangyfrif dealltwriaeth neu brosesu plant o gysyniadau hiliol. Canfu Donaldson, a oedd yn fyfyrwr yn Piaget, y gall plant yn wir fod â phroblemau cymdeithasol cymhleth os yw'n gwneud 'synnwyr dynol' (Donaldson, 1978) iddyn nhw, felly, mae angen inni sicrhau nad yw materion yn ymwneud â hil yn cael eu hystyried yn 'tabŵ', neu fannau 'cadw draw' i addysgwyr.

Mae rôl athrawon a gweithwyr proffesiynol addysgol yn allweddol wrth negyddu hiliaeth neu feddwl hiliol yn eu lleoliadau. Mae'n amlwg pan fyddwch chi'n edrych ar lyfrau datblygiad plant sydd wedi'u hanelu at addysgwyr, fod yna brinder ysgrifennu am hil. Ymagwedd 'lliwddall' at wahaniaethau hiliol (Apfelbaum, Sommers a Norton, 2008; Asika, 2020) yw'r rhagosodiad yn aml. Ymddengys mai gwadu ac osgoi yw'r safiad ar gyfer delio ag unrhyw ddeinameg hiliol yn ein hysgolion a'n lleoliadau blynyddoedd cynnar. Mae anwybyddu gwahaniaethau hiliol yn effeithiol wrth siarad â phlant yn gyfle a gollwyd. Pan addysgir plant am hil mewn ffyrdd ystyrion ac adeiladol, maen nhw'n datblygu mewnwelediad ac empathi tuag at eraill. Rydym yn ffodus yng Nghymru bod ein Cwricwlwm Newydd i Gymru yn amlygu Cynefin i bawb ac y bydd ein pobl ifanc yn dod yn 'ddinasyddion byd-eang Cymru a'r byd' (Llywodraeth Cymru, 2022, ar-lein) trwy'r cylch gorchwyl hwn. Trwy ddefnyddio dull o'r fath, mae ymchwil yn dweud wrthym fod plant yn dangos llai o ragfarn hiliol (Aboud a Doyle, 1996,) a bod ganddyn nhw ymdeimlad mwy cadarn o'u hunaniaeth (Quintana, 1998; Hill, 2006; Alonzo, 2020).

Gwyddom fod y cysyniad o 'hil' wedi'i adeiladu'n gymdeithasol (Smedley a Smedley, 2005, Olusoga, 2016) a chafodd syniadau rhagfarnllyd ynghylch hil eu llunio'n hanesyddol i alluogi'r broses o gaethiwo a gwladychu pobloedd Du neu Fwyafrif Byd-eang. (Singhera, 2021). Felly, mae'n hanfodol bod addysgwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ar hil ac effeithiau hiliaeth, fel bod ganddyn nhw strategaethau, i ddeall naws hiliaeth ac i ddelio â'r hyn sy'n dilyn. Yn y bôn, mae angen iddyn nhw ddod yn llythrennog yn hiliol ac, fel yr awgryma Williams (Llywodraeth Cymru 2021, ar-lein), mae'n rhaid i uwch arweinwyr ym myd addysg ddileu rhwystrau i alluogi ymarferwyr i ymgysylltu â'r maes blaenoriaeth hwn, sef 'amser, adnoddau, cymhwysedd, gwybodaeth a hyder'. Mae'n ymddangos bod cael cefnogaeth rhieni yn ystod unrhyw broses o weithredu gwrth-hiliol hefyd yn allweddol. Canfu ymchwil a wnaed gan Wu, Sanchez a Perry (2022, t. 1), er ei fod yn yr Unol Daleithiau, (sydd â chefnidir hiliol gwahanol iawn i Gymru), fod 'rhieni Gwyn Egalitariaidd yn amharod i siarad am hil gyda'r plant oherwydd tri rheswm: 1) Bydd siarad am hil yn gwneud eu plant Gwyn yn hiliol, 2) Mae plant Gwyn yn rhy ifanc i siarad am hiliaeth, a 3) Mae hil a hiliaeth yn amherthnasol i fywydau plant Gwyn'. Yn ddiamau, mae'r rhain yn bryderon dwfn i'r rhieni hynny, sy'n llwyr ymddiddori yn y canfyddiadau hyn. Fodd bynnag, os dadansoddwyr yr haeriadau hyn, gwyddom y gall plant ifanc gysylltu statws cymdeithasol yn seiliedig ar hil o tua thair blwydd oed, gan ddeall bod gan bobl Wyn fwy o gyfoeth a phŵer mewn cymdeithas na phobl BGM. (Olson, et al., 2012; Mandalaywala, Tai a Rhodes, 2020 a Dukler a Liberman, 2022).

Os byddwn yn parhau i egluro pam ei bod yn hollbwysig ein bod yn cael gwared ar hiliaeth o'n hysgolion, mae'n rhaid hefyd ystyried yr annhegwch o fewn cymdeithas yn ogystal ag iard yr ysgol a mentro nid yn unig i ddadl foesol ein hymdrechion gwrth-hiliaeth, ond annhegwch mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles ein plant a phobl ifanc BGM. Mae'r rhan fwyaf o addysgwyr yn ymwybodol o effeithiau negyddol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs, GIG Cymru, ar-lein) ar blant ifanc a bod yr anghydraddoldebau hyn yn cael eu hystyried o amgylch iechyd, tloidi a cham-drin meddyliol, corfforol a rhywiol. Nid yw ACE ar hyn o bryd yn cynnwys trawma hiliol na bwlio hiliol.

Mae'r trosolwg hwn mewn perthynas â'r dystiolaeth sydd gennym yn awr ar effeithiau hiliaeth ar ymennydd a chyrrff ifanc. Gall hiliaeth effeithio ar ddatblygiad plant ar lefel gellog bron. Rydym yn gwybod bod yr effeithiau'n gronol (Wallace, Nazroo a Becares, 2016; Priest et al., 2019) a bod gwahaniaethu ar sail hil fel y mae ein ymchwil wedi'i ganfod, yn brofiad cyffredin bob dydd i blant a phobl ifanc o gymunedau hiliol. Mae'r sgil-ffaith ar iechyd, yn enwedig iechyd y glasoed, yn dod yn fwy amlwg gyda chorff cynyddol o lenyddiaeth empirig. Mae'n amlwg bod llawer o'r ymchwil, fodd bynnag, yn archwilio'r effeithiau ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol, gyda llai o lenyddiaeth yn ymchwilio i ganlyniadau iechyd. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r corff hwn o waith yn dod o'r Unol Daleithiau, ond mae corff cynyddol o ymchwil bellach yn dod o Awstralia a gwaith gyda phobl ifanc brodorol. (Priest et al, 2013; Shay, Grace ac Woods, 2021).

Gwyddom hefyd o ymchwil a gynhaliwyd ar 'fioleg adfyd' fod hiliaeth yn effeithio'n benodol ar iechyd meddwl a lles (Smith, 2010; Comoz Dias, 2016). Mae Shonkoff, Sopen a Williams, (2021, t.115) yn trafod effeithiau hiliaeth sefydliadol / strwythurol, hiliaeth ddiwylliannol a gwahaniaethu rhyngbersonol.

Maen nhw'n dod i'r casgliad bod y ffactorau hyn yn cynnig tystiolaeth gymhellol o'r angen i amddiffyn ymennydd plant ifanc sy'n datblygu a chyrrff sy'n tyfu rhag yr hyn y maen nhw'n ei alw'n 'amhariadau ffisiolegol straen gwenwynig a all gael eu hachosi gan amlygiad i hiliaeth'. Ar hyn o bryd ychydig o ymchwil hydredol sydd ar effeithiau hiliaeth dros oes, ond mae ymchwil yn dod yn amlwg yn araf. Os yw plant yn profi hiliaeth yn eu blynyddoedd cynnar a bod hyn yn parhau i lencyndod ac yna i fod yn oedolion, mae yna ffactorau sy'n peri pryder, yn arbennig yr 'amlygiad i wahaniaethu hiliol'. Gwyddom yn y glasoed

(o astudiaethau yn UDA) y gall hyn fod yn rhan o faterion iechyd meddwl ac arwain at gamddefnyddio sylweddau neu ddibyniaeth ar alcohol (Gibbons et al., 2010, Faramand, Arshed & Bradley, 2020). Yn y DU, prin yw'r cymorth iechyd meddwl i fechgyn ifanc Du yn arbennig. Mae prinder gweithwyr proffesiynol BGM ym maes iechyd meddwl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol; mae pobl ifanc sy'n profi gwahaniaethu ar sail hil neu broblemau cymdeithasol cysylltiedig eraill yn amharod i gael cymorth yn yr hyn y mae Meehan, John, Hanna (2021, t.106) yn ei alw'n 'system anhygyrch.' Felly, mae'n arbennig o berthnasol bod effeithiau hiliaeth yn cael eu negyddu yn ystod plentyndod cynnar oherwydd yn ystod y cyfnod hwn mae trawma hiliol yn arwain at gyfnod sensitif' ar gyfer mewnloli neu wreiddio ffactorau adfyd sy'n gysylltiedig â straen (McEwen a Gianaros, 2010; Shonkoff et al. , 2009).

Mae'n amlwg yn dilyn ein hymchwil yn y maes hwn na all ysgolion negyddu'r llanw o hiliaeth mewn modd unigol. Mae'n hollbwysig bod rhieni/gofalwyr, a'r gymuned ysgol ehangach, yn cefnogi'n gadarn, er mwyn ymgymryd ag ymagwedd amlochrog at ei dileu. Ni all ysgolion wneud y gwaith hwn ar eu pennau eu hunain.



# Manylion Ymchwil: Dulliau

Roedd yr ymchwil yn seiliedig ar gyfres o gyfweiliadau lled-strwythuredig (sgwrs ymchwil) a gynhaliwyd mewn un ar ddeg ysgol ledled Gwent; pum ysgol gynradd a phum ysgol uwchradd. Roedd un grŵp o oedolion / staff ALL a CA ac un grŵp o rieni / oedolion. Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys pedwar aelod o staff academaidd o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a thri athro. Roedd yr holl ymchwilwyr a arweiniodd y sgysiau ymchwil o gefndiroedd BGM.

Ar y cyfan, gwnaethom gyfweled â 78 o gyfranogwyr (29 plentyn cynradd, 27 person ifanc o ysgolion uwchradd, 7 aelod staff AALL, 15 rhiant ) yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2023.

## Codio data

Cafodd y data a ddefnyddiwyd ei godio fel:

### Ysgolion cynradd yng Ngwent

Enw'r ysgol (NoS)	P1
(NoS)	P2
(NoS)	P3
(NoS)	P4
(NoS)	P5

### Ysgolion uwchradd yng Ngwent

(NoS)	C1
(NoS)	C2
(NoS)	C3
(NoS)	C4
(NoS)	C5

### Oedolion

Staff ALL	L1
Rhieni / Oedolion	Par

Cyfeiriwyd at ddysgwyr fel, er enghraifft, plentyn P5 (plentyn A = P5) neu C1 (YP A = C1 / YPB = C2 ac ati.)

Cyfeiriwyd at oedolion fel staff ALL/Rhieni (Par)/Oedolion

## Cymeradwyaeth Foesebol:

Cafwyd cymeradwyaeth foesebol ar gyfer y prosiect ymchwil hwn trwy fwrdd moeseg y brifysgol.

# Cyfyngiadau ar gyfer yr Ymchwil

Roedd yn amlwg bod rhai heriau emosiynol i ddysgwyr wrth rannu safbwyntiau sensitif. Er bod cymorth yn cael ei gynnig yn ystod ac o gwmpas cyfranogiad yn yr ysgolion, roedd hyn yn amrywio. Credwn, fel tîm ymchwil, ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, y gallai opsiynau ymchwil ar gyfer cyfranogwyr ystyried yn fwy cadarn opsiynau preifatrwydd ar gyfer datgelu bwlio / materion hiliol gydag opsiwn cymorth dilynol safonol ym mhob lleoliad.

Dysgwyr BGM oedd y sampl yn bennaf – ond roedd rhai dysgwyr dan sylw yn Wyn. Roedd hyn yn golygu bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng canfyddiadau a phrofiadau byw. Daeth nifer bach o brofiadau Sipsiwn/Roma/Teithwyr drwodd yn yr ymchwil hon.

Er bod gennym ni ymchwilydd Cymraeg rhugl ar y tîm, a bod ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys, roedd materion logistaidd / argaeledd ar adegau addas i'r ysgolion / tîm yn golygu bod y sgysiau yn digwydd yn Saesneg o fewn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg gyda chefnogaeth athro sy'n siarad Cymraeg o fewn y sgysiau ymchwil.

Cofrestrwyd un ysgol gynradd ac fe wnaethom sefydlu cyfweiliadau ond tynnodd allan ar y diwrnod. Roedd un arall yn bresennol ond roedd materion technegol yn effeithio ar fynediad i'r sesiwn.

Roedd gan rai dysgwyr ddealltwriaeth wahanol o'r hyn oedd yn cynnwys hiliaeth / bwlio hiliol. Roedd cyfyngder amser yn yr adnoddau ymchwil i wneud gwaith dilynol ar y dysgu o fewn y sgysiau ymchwil, ac ni fyddai hyn wedi bod yn briodol fel ymchwilydd oherwydd ein didueddrwydd.

Cynhaliwyd y sesiwn gyda rhieni yn y cnawd mewn lleoliad cymunedol. Roedd yn anodd i'r ymchwilydd gofnodi nodiadau wrth arwain y sgws ymchwil. Mewn ymchwil yn y dyfodol, byddai aelod arall o'r tîm yn cymryd nodiadau neu'n defnyddio dyfais recordio ganolog.

# Canfyddiadau

## Thema 1:

- **Hiliaeth Ganfyddedig / Digwyddiadau Hiliol**
- **Adrodd am ddigwyddiadau hiliol / o hiliaeth**

Mae hiliaeth yn gyffredin ym mywydau plant ac oedolion sy'n cymryd rhan o fewn eu hysgolion a'u cymunedau yng Nghymru. Clywsom hyn yn glir gan y dysgwyr a'r oedolion o gefndiroedd Du a mwyafrif bydeang a rannodd eu profiadau gyda ni.

Mae'n amlwg bod angen inni ddileu'r defnydd o 'gellwair' hiliol ac ni ddylai hyn gael ei ystyried yn dderbyniol mewn unrhyw ffordd nac fel y disgrifiodd un athro:

*"Mae'r plant ym mlwyddyn 6 weithiau'n defnyddio 'slang' – [y gair P]."* (Grŵp Athrawon/ALI)

Bu dysgwyr eraill yn trafod cellwair o amgylch yr '*N-pass*' a chaniatâd gan ffrindiau ar gyfer yr '*N-pass*'. Weithiau mae sylwadau'n cael eu pasio fel jôc ond dywedodd plentyn B P4: Roedd [hiliaeth a ddigwyddodd tuag ataf i] "yn jôc ac nid hiliaeth oedd y bwriad". Felly, ymddengys fod gan blant eu hunain, yn aml, ddealltwriaeth aneglur o'r hyn sy'n gyfystyr â digwyddiad hiliol. Rydym yn ymwybodol o wneud yr ymchwil hon ei fod yn 'fag cymysg' fel y clywyd gan aelod o staff ALI:

*"Ond mae pocedi o arfer da yn digwydd o fewn ysgolion yng Ngwent."* (Staff All, L1)

Roeddem yn bryderus i ddysgu, gan fod staff cymorth wedi dweud wrthym fod angen inni fod yn ymwybodol o hierarchaethau hiliol mewn ysgolion, gan adrodd bod eu gwaith gyda dysgwyr SIY (amlieithog) a dysgwyr Sipsiwn-Roma-Teithwyr yn eu rhoi "i gyd gyda'i gilydd mewn un grŵp – maen nhw'n teimlo'n is nag eraill. Gwahanu yw hyn. Dyna ni a nhw". (Staff All, L2).

Nid oedd gan berson ifanc A yn C4 hyder i adrodd am ddigwyddiadau hiliol oherwydd profiad blaenorol, a oedd hefyd wedi cael effaith ganlyniadol ar ei hunan-barch:

*"Oherwydd bod gen i brofiad o fynd at yr athro pan ddywedwyd slyrs hiliol wrtha i, a digwyddodd dim byd pan ddywedwyd y slyrs hiliol hyn wrtha i yn amlach, doedd gen i ddim yr hyder i fynd at yr athrawon ac esbonio fy sefyllfa."*

Yn C1, roedd pob dysgwr yn cytuno ar ganfyddiad o hiliaeth fel rhywbeth sy'n gwahaniaethu yn erbyn person ar sail ei ddiwylliant neu olwg. Cytunodd yr holl ddysgwyr fod bwllo hilio yn golygu pigo ar rywun ar lafar oherwydd lliw eu croen neu'n seiliedig ar olwg. Dywedodd dysgwyr yn C1 nad oedden nhw wedi profi unrhyw hiliaeth yn eu hysgol na'u cymuned.

Yn ystod ein sgwrs â rhieni, roedd yn amlwg eu bod yn cytuno mai hiliaeth yw'r ffordd y mae pobl yn ymddwyn tuag at ei gilydd. Fe'i gelwir gan Par3 yn:

*"Casineb tuag at ddiwylliant a hil"*

Disgrifiodd Par7 hiliaeth fel:

*"Gwneud hwyl am ben traddodiadau, gan gynnwys sut mae pobl yn gwisgo"*

Cytunodd pob rhiant fod jôcs yn gyffredin yn y gymuned. Roedd pob rhiant hefyd yn cytuno bod y cyfryngau cymdeithasol yn cyfrannu at ddigwyddiadau hiliol gan fod gan bobl y rhyddid i bostio unrhyw beth. Cytunodd pob rhiant nad oedden nhw wedi gweld unrhyw ddigwyddiadau hiliol yn yr ysgol (P 1). Roedd pob un wedi profi neu'n poeni am hiliaeth mewn ysgolion uwchradd lleol.

Dyweddod Par4: *“Mae gan weithwyr cymdeithasol broblemau gyda gwahanol grwpiau”,* a arweiniodd at bob rhiant yn mynegi pryderon am sefydliadau sydd ynghlwm wrth gefnogi addysg. Cytunodd pob rhiant y gall sefydliadau allanol wahaniaethu yn erbyn pobl.

## Thema 2:

### • Peidio ag adrodd am hiliaeth / Rhesymau

Canfuom sawl rheswm pam nad oedd plant / pobl ifanc yn adrodd am ddigwyddiadau hiliol neu fwlio. Roedd hyn yn aml oherwydd ‘cyfeillgarwch’ – roedden nhw’n ofni y byddai ‘ffrindiau’ yn mynd i drwbl:

*“Cefais fy ngalw y ‘gair N’. Ond dydw i ddim yn meddwl yr oedd y plentyn yn ei olygu, felly wnes i ddim adrodd amdano. Doeddwn i ddim eisiau cael y plentyn i drwbl.”* (Dysgwr A, P1)

neu:

*“Wnes i fynd i adrodd amdany'n nhw, ond wnes i ddim yn y diwedd oherwydd dydw i ddim am gael ffrindiau i drwbl a sarnu ein perthynas.”* (Dysgwr C, P3)

Neu pe baen nhw yn adrodd, roedd rhywfaint o’r materion yn mynd yn niwlog yn ystod y broses hon:

*“Dechreuodd y disgybl oedd yn hiliol ddweud celwydd pan gafodd ei adrodd.”* (Dysgwr C, P1)

Rhesymau eraill dros beidio ag adrodd:

Esboniodd dysgwyr ac oedolion nad oedden nhw’n hyderus y byddai unrhyw beth yn digwydd i’w helpu pe baen nhw’n adrodd am hiliaeth, felly doedd:

*‘dim pwynt’* gan y byddai ond yn achosi *“mwy o ofid iddyn nhw a’u teuluoedd”*. (Dysgwr D, P2) a (staff ALI, P3)

*Mae stigma ynghylch adrodd. Rydych chi’n hen geg (‘snitch’). ‘Rydych chi’n meddwl gormod’. ‘Dyw e ddim mor ddwfn â hynny’. Pethau fel hynny. A phan ydych chi’n adrodd amdano go iawn a dydyn nhw ddim yn gwneud unrhyw beth, rydych chi’n dechrau credu nad yw’r holl beth mor ddwfn â hynny. Felly wedyn mae ganddoch chi’r diffyg hyder hwnnw sy’n cydnabod beth sydd wedi digwydd ...”* (Dysgwr A, P4)

Yn ystod y cyfweiliad, roedd plant cynradd hefyd yn cofio digwyddiadau’r gorffennol, a gwnaeth cwestiynau’r ymchwil ddwyn yn ôl atgofion trawmatig o’r gorffennol iddyn nhw.

*“Pan oeddwn i’n iau, roedd hi’n amser cinio ac roedd y plant hŷn (blwyddyn 4) yn chwerrthin ac yn fy ngalw’n ‘blackie’ – wnes i anghofio amdano achos roeddwn i’n ifanc, ond dwi’n ei gofio’n awr ac mae’n gwneud i mi deimlo’n drist.”* (Plentyn C, P1).

Dyweddod staff ALI:

*“Pan mae’n ficroymosodiad, efallai nad oes gan y disgyblion ifanc y gallu i gyfathrebu beth sydd wedi digwydd iddyn nhw neu pam mae’n hiliol. Hefyd, sut allwch chi adrodd am hiliaeth yn ‘ddiogel’ pan mae athro’n ymddwyn yn hiliol?”* (Staff ALI, L1)

Cododd staff ALI bwyntiau defnyddiol ynglŷn â’r dysgwyr, sef eu bod ‘ar eu pennau eu hunain’ yn hyn o beth neu’r ffaith nad oes gan ysgolion ‘y strategaethau / gwybodaeth i ymdrin â’r materion hyn’, ac felly, ‘maen nhw’n cael eu hysgubo o dan y carped’ a’u diystyru fel ‘nid felly y bu hi mewn gwirionedd’. Mae hyn yn parhau’r system ac yn achosi i rai dysgwyr neu oedolion ymatal rhag adrodd. Fel y mae L1 C yn nodi:

*“Dyw delio â hiliaeth ddim yn ymddygiad sydd wedi ymwreiddio yn y system ysgolion.”*

Neu:

*“Mae disgyblion/staff yn teimlo fel bod hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid iddyn nhw ddelio ag ef eu hunain yn eu bywydau.” (L1 B)*

Fodd bynnag, yn ysgol gyfun C1, nid oedd pob dysgwr wedi adrodd am unrhyw ddigwyddiad o hiliaeth neu fwlio hiliol yn seiliedig ar eu profiad. Dywedon nhw hefyd nad oedden nhw wedi gweld unrhyw achosion o fwlio hiliol o fewn yr ysgol. Efallai fod hyn oherwydd bod y garfan a ddewiswyd ar gyfer y cyfweiliad gan yr ysgol yn Wyn yn bennaf.

Yn ysgol gynradd C 1, dywedodd sawl rhiant wrthym eu bod wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau hiliol. Dywedodd Par 4 nad oedd yr un o’r myfyrwyr eraill wedi’u gwahardd ond bod eu mab o’r gymuned Roma. Roedd Par 3 a Par 5 yn cytuno â hyn ac yn crybwyll nad oedd athrawon yn eu cefnogi. Roedden nhw’n teimlo nad oedd ganddyn nhw unrhyw un i gwyno nac i adrodd am y digwyddiad iddo / iddi. Roedd pob rhiant y poeni am eu plant yn mynd i’r ysgol uwchradd yn yr ardal.

Dywedodd Par 2 iddyn nhw gael eu dilyn gan swyddog diogelwch mewn archfarchnad. Mae Par 3 a Par 4 hefyd wedi rhannu profiadau tebyg. Roedd rhieni eraill yn cytuno bod hyn yn normal, ac yn aml roedd swyddogion diogelwch yn eu dilyn wrth iddyn nhw siopa. Dywedodd Par 4 nad oedd unrhyw ddiben adrodd am ddigwyddiadau yn y gymuned i’r heddlu gan ‘nad oes pwynt’. Cytunodd pob rhiant nad oedd adrodd i’r heddlu yn cael unrhyw effaith. Soniodd Par 1 hefyd, oherwydd y rhwystrau iaith a diffyg cyfieithwyr ar y pryd o fewn sefydliadau, nad oedden nhw’n gallu adrodd am unrhyw faterion.

## Thema 3:

### • Lles Dysgwyr / Hunan-barch

Gwyddom o ddamcaniaeth / ymchwil fod gan hiliaeth niwed emosiynol cynyddol. Mae hyn wedi’i nodi’n gryno iawn isod.

*“Dydych chi ddim yn deall pa mor ddrwg yw hiliaeth nes eich bod wedi ei phrofi eich hun.” (Person Ifanc, C2)*

Digwyddodd sgwrs bryderus gyda grŵp o blant yn P 4 pan ddywedodd Plentyn A wrth Blentyn B:

Plentyn A: “roedd rhywun yn hiliol tuag atat ti.”

Plentyn B: “oedden nhw?”

Plentyn A: “fe ddywedon nhw nad oeddet ti’n gallu bod yn glyfar oherwydd rwy’ti’n Ddu.”

Ymatebodd Plentyn B: “dydw i ddim hyd yn oed yn Ddu.”

Roedd yn amlwg i’r ymchwilydd fod Plentyn B o gefndir Mwyafrif Byd-eang Du (BGM) ac, yn y sgwrs hon, roedden nhw’n amharod hyd yn oed i gydnabod eu treftadaeth/arlliw croen eu hunain. Credwn fod hyn yn gysylltiedig â’r syniad o fod yn ‘ddioddefwr’ y digwyddiad a’r cymhlethdodau o ran sut mae pobl yn diffinio eu hunain mewn disgrifiadau o arlliwiau croen.

Dywedodd Person Ifanc E yn C4 wrth siarad am gael ei orfodi i gymryd rhan mewn cyfarfod adferol:

*“Wrth fynd i mewn i’r ystafell honno, roedd yna ddisgwyliad i mi faddau i’r person hwnnw... Maen nhw’n ymdrin â’r peth fel petaen nhw ond wedi eich galw’n fân enw, dim rhywbeth hiliol iawn â hanes y tu ôl iddo... Mae’r ddau ohonoch yn cael eich dwyn i mewn i’r ystafell honno ac edrychir arnoch chi fel petai dim byd wedi digwydd ac mai dim ond ffeit plentynnaidd yw e. Ac mae’n rhaid i chi faddau iddyn nhw. Ac felly, maen nhw’n fy rhoi i mewn sefyllfa lle dwi’n teimlo bod yn rhaid i mi faddau iddyn nhw hyd yn oed pan dwi’n drist ac wedi fy rifo. A ches i byth y cyfle i gyfleu hynny. Ac yn lle, fe wnes i adael y peth i fynd. Roedd disgwyl i fi adael y peth i fynd.”*

Enghraifft arall. Roedd yn amlwg bod YPA yn C4 yn ddigalon wrth gofio:

*“Rydych chi’n teimlo fel petai’n rhaid i chi anghofio am y peth pan mae slyrs hiliol yn cael eu hanelu atoch chi. Sai’n gwybod. Yn fy achos i, mae’n rhywbeth mwy seicolegol lle dwi’n teimlo; efallai fod hyn yn normal, oherwydd does dim byd, mewn gwirionedd, yn cael ei wneud am y peth. Dim byd. Does dim llawer o ymwybyddiaeth am y peth, mewn gwirionedd. Mae’n cael ei drin fel petai’n normal. Dim ond ‘cellwair’ ydyw. Ond y peth yw, mae yna oblygiadau ac mae yna hanes y tu ôl iddo. Mae’n rhaid i ni ei gymryd yn fwy o ddfifri.”*

Dywedodd Plentyn C yn C4:

*“Pan oeddwn i’n iau a hyd yn oed nawr weithiau, byddai fy nhad yn fy atgoffa a dweud ‘cofia [enw plentyn C], rwy ti’n ferch Ddu. Elli di ddim ymddwyn fel pobl eraill. A dwi’n teimlo bod y meddylfryd hwnnw yn dal i gadw hiliaeth ar hyd y lle. Ddylwn i ddim ymddwyn yn wahanol oherwydd os byddai’n gwneud rhywbeth y mae person Gwyn yn ei wneud, yna byddan nhw’n cael eu cosbi’n llai llym na fi.”*

Yn C1, ni ddywedodd yr un o’r dysgwyr eu bod wedi profi neu wedi gweld hiliaeth neu fwlio yn eu hysgol neu gymuned. Roedden nhw i gyd yn deall y byddai’n golygu ‘pigo ar rywun’. (Plentyn D P1)

*“Weithiau byddai ffrindiau’n dweud pethau fel jôc sy’n siarad am wahaniaethu, ond dyw e ddim yn cael ei ystyried yn hiliaeth.”*

Rhannodd sawl dysgwr straeon emosiynol am eu profiadau o hiliaeth o oedran ifanc. Roedd hyn yn anodd ac yn emosiynol i’w glywed. Roedd yr empathi a’r gwrando gweithredol rhwng y dysgwyr wrth glywed straeon ei gilydd yn amlwg. Roedd yn amlwg bod rhai o’r dysgwyr Gwyn wedi’u synnu’n fawr o glywed eu cyfoedion yn rhannu rhai enghreifftiau a drafodwyd yn agored.

## Thema 4:

### • Materion Ysgol / Cymunedol

Roedd peth gwybodaeth ymhlith y cyfranogwyr bod materion yn y gymuned yn aml yn cael eu cyflwyno i’r ysgol. Rhoddwyd enghreifftiau o blant yn cael eu galw’n slyrs hiliol ar fysiau ysgol, wrth fynd heibio i eraill yn cerdded neu’n aros ar arosfannau bysiau. Soniodd eraill am graffiti a oedd i’w weld ar eu taith i’r ysgol. Roedd yn amlwg bod amgylchedd uniongyrchol y gymuned neu unrhyw faterion yn ymwneud â hiliaeth yn treiddio i’r ysgolion.

*“Mae hiliaeth ym mhobman” (Plentyn D P1)*

*“Mae’r gymuned yn difaru i mewn i’r ysgol – mae’n dawddlestr” (staff ALI D)*

Yn ysgol C4, roedd pob myfyriwr yn cytuno’n unfrydol nad oedd rhieni’n cael gwybod am ddigwyddiadau hiliol sy’n digwydd yn yr ysgol.

Yn ysgol gynradd P3, adroddodd yr athro dosbarth fod digwyddiadau o sylwadau hiliol o fewn chwaraeon yn y gymuned tuag at blant ac oedolion weithiau. Disgrifiodd oedolion hefyd iddyn nhw fod yn destun slyrs hiliol yn ogystal â ffurfiau mwy ‘cynnil’ o hiliaeth a chanfyddiadau hiliol yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Cytunodd pob cyfranogwr a oedd yn rhieni / gwarcheidwaid yn P1 mai prin oedd materion hiliaeth. Credai rhieni fod llawer o gefnogaeth a chyfieithwyr ar gael yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn dathlu’r gymuned trwy drefnu dathliadau cyfun. Ond roedd pob rhiant yn cytuno bod digwyddiadau hiliol yn rheolaidd ac yn ‘normal’ yn y gymuned. Dywedodd Par 2 fod rhai rhannau o’r gymuned yn iawn ond nad oedden nhw’n teimlo’n ddiogel mewn rhannau eraill. Dywedodd Par 9, er mwyn i ddigwyddiadau hiliol yn y gymuned leihau, fod angen mwy o gydlyniant cymunedol a chydweithio. Roedd Par 7 a Par 8 yn cytuno bod hiliaeth weithiau ymhlith gwahanol grwpiau. Fe wnaethon nhw hefyd sôn bod hiliaeth yn cael ei dysgu yn y cartref. Roedden nhw’n teimlo’n gryf bod angen i rieni gael eu haddysgu ynghyd â’r plant ac i hynny gael sylw ym mholisiau’r ysgol, datganiadau gweledigaeth a darpariaeth gymunedol.

## Thema 5:

## • Ethos Ysgol / Ymrwymiad Ysgol

Yn ysgol C1, roedd yn ymddangos bod gan yr ysgol gefnogaeth i ddysgwyr o ran adrodd. Roedd pob dysgwr yn gwybod y gallen nhw siarad â'u harweinydd diogelu. Roedd darpariaeth hefyd ar gael ar gyfer adroddiadau dienw a rhai wedi'u henwi ar-lein. Esboniodd yr athro ei bod yn teimlo bod gan yr ysgol lawer o gefnogaeth ar gyfer achosion o fwlio. Nid oedd yn glir a oedd llwybr penodol neu labelu digwyddiadau 'hiliol' ac roedd y canlyniadau ar gyfer y dioddefwyr / cyflawnwyr yn aneglur ac yn anghyson.

Yn P 4, trafododd yr athro ddsbarth fod ysgolion yn defnyddio mesurau adferol i ddatrys gwrthdaro. Ymhelaethodd yr athro hefyd ar gyfiawnder adferol. Roedd pob athro yn cael eu hyfforddi mewn dulliau cyfiawnder adferol.

Cymerodd yr ysgol ran hefyd mewn diwrnod diwylliant yr oedd pob disgybl yn ei fwynhau. Ni chynigiwyd trafodaeth ymhlith yr oedolion am y cwricwlwm cudd a bob dydd a sut gallai hyn effeithio ar ddiwylliant yr ysgol a dysgu dyfnach. Ond mewn un ysgol, bu'r dysgwyr yn trafod gwasanaethau a dysgu a oedd yn digwydd yn ymwneud â chrefydd. Gofynnodd sawl dysgwr yn y grŵp hwn yn agored am fwy o gyfleoedd i ddysgu am wahanol ddiwylliannau a phrofiadau byw yng Nghymru i'w hathro, a gymerodd ran weithredol yn y sgwrs ymchwil.

## Thema 6:

### • Canfyddiadau Oedolion

Dywedodd oedolion a oedd yn staff ALI wrthym fod hiliaeth yn gyson yn ein hysgolion, a'i fod yn 'dap sy'n diferu' (Cyfranogwr L3)

Awgrymodd staff BGM a oedd yn cyflenwi hefyd nad oedd hiliaeth / bwlio hiliol wedi'i gyfyngu i ddysgwyr yn unig.

*"Fel menyw sy'n gwisgo hijab, yn aml mae disgyblion yn chwervthin neu'n galw enwau. Dwi'n eu hanwybyddu – mae fel arfer yn digwydd. Dwi bob amser yn wylidwrus wrth fynd i ysgol newydd. Dydw i erioed wedi'i adrodd i'r pennaeth / pam fyddwn i?" (aelod staff ALI L4)*

Yn ysgol C1, teimlai'r athro nad oedd gwahanol grefyddau a diwylliannau wedi'u hintegreiddio i bob gweithgaredd o hyd. Teimlai fod dysgwyr o ddiwylliant a chrefyddau gwahanol yn 'aros yn eu grwpiau'. Eglurodd rhieni yn P1 fod nifer o ddigwyddiadau hiliol yn y gymuned. Codwyd pryderon ganddyn nhw am hiliaeth mewn ysgolion uwchradd yn dod o fyfyrwyr i fyfyrwyr ac athrawon i ddysgwyr. Roedd pawb a gymerodd ran yn y grŵp bach o rieni yn teimlo, yn eu profiad nhw, fod athrawon yn rhagfarnllyd yn erbyn myfyrwyr o wahanol gymunedau. Teimlai Par 11 fod myfyrwyr yn eu cwestiynu am y ffordd y maent yn ei wisgo neu'n pigo arny'n nhw am wneud hynny. Ni chafodd gefnogaeth neu ymyrraeth gan athrawon. Teimlai rhieni o'r gymuned Roma nad oedden nhw'n cael eu cynrychioli ar y cyngor lleol neu yn y gwasanaethau cyhoeddus. Roedden nhw'n teimlo na allen nhw adrodd am achosion o hiliaeth i'r heddlu gan na fyddai neb yn gwneud unrhyw beth i'w deall. Soniodd Par 2 a Par 3 hefyd eu bod yn ei chael yn anodd adrodd am ddigwyddiadau oherwydd rhwystr iaith. Dywedon nhw, os oedden nhw'n grac y gallen nhw ddefnyddio Google Translate, ond nad oedd hyn bob amser yn effeithiol ac yn cyfyngu ar yr hyn roedden nhw'n gallu ei rannu o brofiad.

# Safle o fewn yr Ymchwil

Roeddem yn credu fel tîm o ymchwilwyr o gefndiroedd BGM ei bod yn bwysig rhannu o fewn y sgysiau ymchwil sut yr oeddem yn teimlo yn ystod y broses ymchwil 'emosiynol' hon, er ein bod yn ymwybodol iawn o ragfarn ac o beidio â dylanwadu ar y cyfranogwyr. Roedd yn rhwystredig ac yn peri gofid i ni, wrth wrando ar dystiolaeth y dysgwyr a'r cyfranogwyr sy'n oedolion.

Yn ysgol C1, roedd y grŵp yn gymysgedd o ddysgwyr Gwyn yn bennaf. Roedd yn ymddangos bod yr athro hefyd o gefndir Gwyn er na chafodd y wybodaeth hon ei datgelu na'i thrafod. Roedd yna ddau ddysgwr Du yr oeddem yn teimlo y bydden nhw wedi dweud mwy pe bydden nhw'n cael lle i wneud hynny. Fodd bynnag, oherwydd dynameg y grŵp, roedd yr holl fyfyrwyr yn cytuno ar y cyfan. Hefyd, nid oedd gan yr athro unrhyw brofiad byw o hiliaeth ac roedd i'w weld yn dangos diffyg empathi a dealltwriaeth yn y gofod cyfweled a allai fod wedi'i gwneud yn anodd i'r myfyrwyr ifanc siarad yn agored.

Mewn cymhariaeth, yn ysgol C2, roedd yr athro gwrywaidd Gwyn a oedd yn bresennol yn ymgysylltu'n agored yn ystod y sgwrs ymchwil gyda'r dysgwyr, gan fyfyrion gyda'r grŵp ar ei ganfyddiadau o'i fraint ei hun o beidio â chael profiad o hiliaeth yn ei fywyd. Disgrifiodd ei fod ar hyn o bryd ar 'daith' i ddysgu mwy am faterion yn ymwneud â hiliaeth ac am addasu ei amgylchedd dosbarth a'i gwricwlwm ei hun. Dywedodd wrth y grŵp am ddiwyddiad DARPL diweddar yr oedd wedi mynd iddo.

Roedd dysgwyr yn ymgysylltu'n dda â'r ymchwil yn gyffredinol ac roedden nhw'n groyw iawn, gofalgar, meddylgar a gwybodus. Roedd Ysgol C4 yn gyfweled rhwystredig i'n hymchwilydd, gan ei fod yn credu fel athro ei hun, y gallai'r materion sy'n dod oddi wrth y dysgwyr gael eu datrys mor hawdd. Roedd hi'n anodd yn rhai o'r sgysiau byr i ni weld pa mor rhwystredig / gofidus oedd y myfyrwyr. Ond, yn anffodus, roedd yn amlwg bod dysgwyr yn teimlo syndod ac yn ddiolchgar am yr achlysuron pan oedd ysgol wedi dilyn digwyddiad hiliol.

Roeddem yn meddwl bod rhai ysgolion yn ymdrechu'n galed i ymgysylltu â chefnogi myfyrwyr ac wrth negyddu hiliaeth / bwlio hiliol. Roedd dysgwyr yn amlwg yn ceisio bod yn rhagweithiol yn ysgol C5. Fe wnaethon nhw sôn eu bod wedi ceisio sawl gwaith i 'gychwyn pethau' a rhoi systemau ar waith, ar ôl siarad ag athrawon dosbarth, ond eu bod yn teimlo na fu unrhyw 'brynu i mewn' gan yr uwch dîm arwain.

Nododd un ymchwilydd ei bod yn falch bod yr ymchwil wedi'i gwneud ar TEAMS gan ei bod yn teimlo ychydig yn fwy anghysbell. Mae gan yr ymchwilydd hon gysylltiadau negyddol o hyd â'i dyddiau ysgol ei hun, gan iddi yn aml gael ei neilltuo neu ei 'harallu' yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan oedd hi'n siarad â'r plant yn ysgol P1, soniodd plentyn ym mlwyddyn 5 am ei phrofiadau o gael ei 'gadael allan' gan ei chyfoedion Gwyn ac ymddygiad megis anwybyddu neu beidio â siarad â hi. Roedd hyn yn peri gofid mawr iddi gan fod hyn yn union fel ei phrofiad hi. Yn ffodus, roedd hi'n gallu dal ei hun gyda'i gilydd, ond credai pe bai hi wedi bod yn yr ystafell, y byddai wedi crio bryd hynny. Esboniodd ymchwilwyr eraill fod arwain y sgysiau ymchwil yn gwneud iddyn nhw deimlo'n emosiynol ac yn ddagreuol yn ystod ac wrth fyfyrion wedyn. Mae'r ymchwilwyr yn teimlo'n gryf y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil gael rhywfaint o adborth o'r ymchwil hon a rhai camau pendant wrth symud ymlaen. Roedd yn arbennig o ofidus pan apeliodd y cyfranogwyr ifanc atom i'w chefnogi ymhellach:

**"Pryd mae'r oedolion yn mynd i sortio hiliaeth?" (Plentyn B, P1)**

Yn dilyn cyfweled mewn ysgol, gofynnodd grŵp o fechgyn BGM i ymchwilydd, a oedd yn athrawes ysgol BGM ifanc, a allai 'roi rhywfaint o gyngor' iddyn nhw y tu allan i'r cyfweled ar sut i lywio o fewn system eu hysgol Gwyn.



# Argymhellion ar gyfer Polisi / Strategaeth

Daw nifer o argymhellion o leisiau cyfranogwyr yr ymchwil. Unwaith eto, nid mewn unrhyw drefn benodol, ond y consensws yw bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, ac y bydd pawb ar gam gwahanol yn eu teithiau gwrth-hiliol fel continwmm. Yr hyn sy'n allweddol yw cychwyn ar y daith a chael ymagweddau cyson ar draws yr ysgol ac ar draws yr ALL.

1. Crybwyllwyd empathi a chynghreiriad fel sbardun allweddol yn y gwaith hwn. Mae angen i holl staff ALL a holl staff yr ysgol ymgysylltu â dysgu proffesiynol gwrth-hiliaeth a llythrennedd hiliol trwy sefydliadau fel y cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru trwy DARPL.
2. Dywedodd athrawon a staff ALL wrthym fod gwaith bugeiliol yn hanfodol o fewn y dynamig hiliol hwn. Mae toriadau ariannol i staff cymorth yn amlwg mewn llawer o ysgolion – nid yw hyn yn helpu gwaith bugeiliol na gwaith tegwch hiliol, gan fod angen amser ac ymrwymiad i wrando, addysgu a datrys. Mae angen cymorth ac arweiniad ar ysgolion ar ddatblygu eu cynlluniau cydraddoldeb strategol a blaenoriaethu adnoddau ar gyfer y gwaith hanfodol hwn.
3. Rhaid diweddarau'r term Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Byddai amlieithog yn ddewis arall gan fod y term hwn yn dathlu galluoedd ieithyddol dysgwyr a deallusrwydd byd-eang yn hytrach na defnyddio model 'diffyg' o 'Saesneg fel iaith ychwanegol'.
4. Mae hiliaeth a hiliaeth / bwlio hiliol yn gronol. Mae ei effeithiau yn para gydol oes. Mae'n effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol ein pobl ifanc. Rydym yn argymhell yn gryf y dylid categorio hiliaeth a hiliaeth / bwlio hiliol fel Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod (ACE)
5. Dylid darparu adnoddau ar gyfer cymorth (cwnsela) sy'n briodol i'r unigolyn ar gyfer plant y mae hiliaeth yn effeithio arnyh nhw. Mae angen i bolisiau a gweledigaethau ysgol sicrhau bod gwrth-hiliaeth yn greiddiol i ddiogelu.
6. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989) yw'r cytundeb hawliau dynol a dderbynnir fwyaf yn y byd. O dan Hawliau Dynol rhif 2, nodir bod rhaid amddiffyn plant a phobl ifanc rhag gwahaniaethu gan mai dyma eu hawl dynol. Mae angen i ni sicrhau bod ALLau ac ysgolion nid yn unig yn cadw at y gofyniad hwn ond yn ei osod yn weithredol wrth wraidd holl bolisiau a gweithdrefnau cenedlaethol, rhanbarthol ac unigol gyda hiliaeth yn cael ei hystyried yn benodol o fewn y diffiniad o wahaniaethu.
7. Fel y dywedodd un o'r plant a gyfrannodd i'r ymchwil mor huawdl:  

*"Mae'n rhaid i gymuned y byd [o ran hiliaeth mewn ysgolion] wybod beth sy'n digwydd yn y byd.... nid dim o myd yr ysgol."*

(Plentyn, B, P1)
8. Rhaid cael proses / maen prawf clir ar gyfer adrodd ac ar gyfer delio â hiliaeth / bwlio hiliol, un sy'n mynd y tu hwnt i un ysgol yn unig (dull gweithredu cyngor / ardal / gwlad). Rhaid i ysgolion benodi person dynodedig y gellir adrodd am hiliaeth iddo/iddi.
9. Mae angen cynnwys gwrth-hiliaeth yn y cwricwlwm, ac elfen o gyd-greu gyda myfyrwyr. Mae angen cefnogi a herio cynrychiolaeth amrywiol a dilys wrth gynllunio ar gyfer pob un o'r pedwar diben a maes dysgu a phrofiad trwy ddysgu proffesiynol drwy ymgysylltu â'r gymuned ledled Cymru.
10. Nid yw staff ALL ac Ysgol yn gymwys, yn hyderus nac yn gyson wrth ymdrin â digwyddiadau hiliol. Mae angen dysgu proffesiynol safonol yn gyffredinol. Mae'r angen dybryd am ddatblygiad staff ALL, yr uwch dîm arwain a llywodraethwyr a'u hymrwymiad yn hollbwysig.
11. Mae'n amlwg o'n canfyddiadau bod yn rhaid i bob ysgol fod yn ymwybodol ac ystyried sut i weithredu cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth (ARWAP) Llywodraeth Cymru (LIC) ac uchelgeisiau gwrth-hiliaeth Cymru ar gyfer 2030.

12. Dylai holl staff yr ysgol fod yn ymwybodol o'r argymhellion yn Adroddiad 'Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2021', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
13. Dylai holl staff yr ysgol gael eu cyfeirio at ddeunyddiau DARPL (DARPL.org) Llywodraeth Cymru a chyfleoedd dysgu ar gyfer ymgynghori, herio a chefnogi. Dylai dysgu proffesiynol gael ei wneud a'i archwilio gan yr Uwch Dîm Arwain ar sail ysgol gyfan. Nid gweithgaredd ar gyfer staff arweiniol neu ragweithiol yn unig yw hwn. Mae angen i hwn fod yn ddull diogelu ysgol gyfan.
14. Dylai unrhyw hiliaeth / bwlio hiliol a welwyd, a glywyd neu a adroddwyd amdani gael ei hysbysu'n orfodol i rieni / gwarcheidwaid ar gyfer cyflawnwyr ac ar gyfer y derbynydd gyda chanlyniadau ac ymyriadau dilynol.
15. Mae angen i ymateb i ddigwyddiadau hiliol fod yn gyson ac yn raddedig gyda lefelau penodol o ganlyniadau ac addysg ar draws ysgolion, y rhanbarth ac yn genedlaethol.
16. Rhaid i system adrodd glir, gyfrinachol a safonol fod yn ei lle o fewn ysgolion ac ar draws y rhanbarthau.
17. Dylai sefydliadau dysgu ac ysgolion ystyried sefydlu grŵp llywio gwrth-hiliaeth yn ei gyd-destun ei hun i rannu'r gwaith adolygu a diwygio ac i gydweithio â rhieni, rhanddeiliaid cymunedol, sefydliadau allgymorth cymunedol a gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad fyw.
18. Dylai fod cyfleoedd clir i fyfyrwyr ddysgu am ddiwyllianau eraill trwy gydol bywyd ysgol ar draws pob maes dysgu.
19. Mae angen uwchsgilio / ymwybyddiaeth / dysgu proffesiynol gan ddysgwyr a staff am ddiffinio, adrodd a gweithredu ar droseddau casineb.
20. Dylai'r ALL sy'n ariannu gyhoeddi / rhannu canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn i'w hystyried ar draws ALLau ac ysgolion eraill.

# Argymhellion ar gyfer Ymarfer

Beth mae angen i'r ALL / Ysgolion ei wneud wrth symud ymlaen? Rhaid i arfer gwrth-hiliol fod yn ysgol gyfan. Rhaid iddo gael ei ymgorffori mewn polisi ac arfer bob dydd. Rhaid cael ethos ysgol gyfan o beidio â derbyn unrhyw faterion hiliol, gan gynnwys 'cellwair'. Mae cysondeb yn allweddol wrth ymdrin â hiliaeth / bwlio hiliol. Mae angen i bob aelod o staff wybod beth i'w wneud i adrodd / sianeli gorchymyn. Rhaid cael ffyrdd cadarn a sensitif o gofnodi ac adrodd.

1. Rhaid i systemau clir a thryloyw ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau hiliol / bwlio fod yn rhan annatod o bolisi / gweithdrefnau'r ysgol. **Rhaid i ysgolion fod â dim goddefgarwch o hiliaeth / bwlio hiliol o bob math gan gynnwys 'cellwair'**. Rhaid i unrhyw system hefyd 'sgwario'r cylch' h.y., dylai fod gan ddigwyddiadau yr adroddir amdany'n nhw, amserlen weithredu glir, sy'n gweld datrysiad pendant i'r sawl sy'n derbyn hiliaeth ac ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y sawl sy'n cyflawni hiliaeth
2. Dylai gweithdai i wneud disgyblion yn fwy ymwybodol o ddiwylliannau eraill gael eu cyflwyno gan bobl â "phrofiad personol" (Plentyn B, P5).
3. Dywedodd Plentyn A yn C4 "*Mae hanes yn cael ei ddysgu'n negyddol, dim ond hanes sy'n fasnach gaethweision. A dwi'n teimlo bod yn rhaid i bob diwylliant gael ei gynnwys mewn ffordd gadarnhaol.*
4. Plentyn B yn C5 yn siarad am y cwricwlwm a pham y dylai newid: "*Mae hefyd yn cyflwyno lleiafrifoedd ethnig neu bobl Ddu {i bobl ifanc} fel petai gennych hanes gwael; rydych chi'n wynebu hiliaeth a dyna'r cyfan sydd yna i chi... Mae fel petaen ni wedi cael ein gwneud ar gyfer gorthrwm*".
5. Mae angen i ysgolion ystyried y gall oedolion (athrawon, staff cymorth ac ati) sy'n gweithio yn eu hysgolion hefyd ddirodded o hiliaeth / bwlio hiliol. Mae angen manau agored i archwilio'r mater hwn yn rhagweithiol.
6. Awgrymwyd defnyddio 'edu-key' fel ffordd ddefnyddiol o gofnodi bwlio hiliol / digwyddiadau hiliol. Dylid archwilio systemau i'w defnyddio'n effeithiol mewn ysgolion a ledled y rhanbarth.
7. Mae angen gweithio ar bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae anghenion dysgu yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion cynradd. Gwyddom fod plant ifanc yn dechrau ffurfio syniadau [negyddol] ynghylch hil pan fyddan nhw'n ifanc iawn. Rhaid i ymyriadau ddechrau yn gynnar h.y., mewn ysgolion cynradd pan fo myfyrwyr yn dal i ddatblygu / deall cymdeithas ac gweddau hiliol.
8. Dywedwyd bod defnyddio blwch pryder digidol, bwrdd jam, i ysgrifennu sut mae dysgwyr yn teimlo yn ddefnyddiol.
9. Partneriaethau gwell gyda rhieni. Mae ymgysylltu â rhieni a sicrhau eu hymrwymiad yn hollbwysig. Y consensws oedd na all ysgolion wneud y gwaith hwn ar eu pennau eu hunain a bod angen cefnogaeth gweithwyr proffesiynol sydd â phrofiad byw ac sy'n ystyried amlieithrwydd.
10. Ymddengys fod addysgu'r gymuned a'r rhieni yn effeithiol ac yn angenrheidiol. Mae angen archwilio a galluogi cyfleoedd dysgu cymunedol. Roeddem yn cytuno gydag un o'r bobl ifanc a ddywedodd:  
**"Roedd disgyblion yn ailadrodd pethau ar ôl gwrandao ar eu rhieni". (YP1, C2).**
11. Mae angen dysgu ac arweiniad proffesiynol ar gyfer yr holl staff / gweithwyr proffesiynol yn yr ALL, ysgolion a chonsortia rhanbarthol i wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio'r iaith gywir a sicrhau eu bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â herio a delio â hiliaeth (staff ALL, L1)
12. Mae cylchlythyr yn yr ysgol (i rieni) yn cynnwys gwybodaeth gwrth-hiliaeth yn angenrheidiol ynghyd â datblygiadau polisiâu a chodau ymddygiad.
13. Dylid cynnwys addysg gwrth-hiliaeth o fewn cwricwla ysgol sy'n cynnwys elfen o gyd-greu gyda dysgwyr.

14. Dylai prosesau recriwtio gynnwys ystyriaeth o arfer gwrth-hiliol o drafodaethau / tasgau cyfweld a dysgu proffesiynol ar gyfer staff newydd ac athrawon dan hyfforddiant. Dylid gofyn i ddarparwyr athrawon cyflenwi am ddysgu / archwilio proffesiynol gwrth-hiliaeth.
15. Mae angen i'r holl staff sy'n gweithio ym maes addysg ymgymryd â dysgu proffesiynol ysgol gyfan parhaus fel DARPL (DARPL.org) a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn y cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol.
16. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol i adolygu ac adrodd ar nifer a chanlyniadau digwyddiadau hiliol mewn ysgolion yn yr ALL bob tymor
17. Mae addysg wrth-hiliaeth barhaus ac addysg gwrthdrosedd casineb i ddysgwyr yn hanfodol ar hyd teithiau ysgol dysgwyr. Dylai hyn fod yn barhaus mewn addysgu a dysgu ac nid yn flwch i'w dicio. Dylai hyn gynnwys addysgu hanes dilys ac ymgysylltu â'r gymuned leol â grwpiau BGM. Mae angen i bob ysgol dynnu ar yr argymhellion yn Adroddiad 'Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Du Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2021'.
18. Y Bwrdd Diogelu a'r tîm ymchwil i gynnal digwyddiad dysgu ar y cyd yn cynnwys cyfranogwyr ymchwil yr adroddiad hwn i rannu a thrafod canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn.

# Argymhellion ar gyfer Ymchwil yn y Dyfodol

1. Rydym yn cymeradwyo cyllid yr ymchwil hon gan Is-grŵp Addysg a Hil Bwrdd Diogelu Gwent 2022-23. Fodd bynnag, credwn yn wirioneddol mai prin y mae'r prosiect ymchwil hwn wedi crafu'r wyneb ar y mater hwn sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae angen cyllid pellach ac ymchwil hydredol i archwilio'r materion hyn yn fanylach.
2. Efallai y bydd rhanbarthedd yn chwarae rhan yn yr ymchwil hon. Mae de Cymru yn fwy amrywiol nag ardaloedd eraill yng Nghymru. Felly, mae'n bwysig bod yr ymchwil hon yn cael ei hailadrodd ledled Cymru. Hefyd, mewn perthynas â meddylfryd cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru (2030).
3. Y tîm ymchwil a Bwrdd Diogelu Gwent i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Plant yng Nghymru ynghylch yr ymchwil gyfredol sy'n mynd rhagddi i gydgrynhoi canfyddiadau i argymhellion cenedlaethol, canllawiau cenedlaethol, diwygio polisi a chymau gweithredu ar y cyd ar gyfer tegwch, cydraddoldeb a newid sylweddol cynaliadwy.

# Geirfa Dermau

**ACE** – 'Adverse Childhood Experiences' (Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod).

**BGM** – Pobl â threftadaeth Ddu a Mwyafrif Byd-eang

**Arfer Gwrth-hiliol** – Yr arfer o fod yn wrth-hiliol yn hytrach na bod yn hiliol neu ymwneud â gweithgaredd sy'n foisol / gyfreithlon anghywir.

**Mwyafrif Byd-eang** – 'Mae Mwyafrif Byd-eang yn derm cyfunol sy'n siarad yn bennaf ac yn annog y rhai a elwir i feddwl amdanyn nhw eu hunain fel rhai sy'n perthyn i'r Mwyafrif Byd-eang. Mae'n cyfeirio at bobl sy'n Ddu, Asiaidd, Brown, treftadaeth ddeuol, yn frodorol i'r de byd-eang, neu sydd wedi cael eu hileiddio fel 'lleiafrifoedd ethnig'. Yn fyd-eang, mae'r grwpiau hyn ar hyn o bryd yn cynrychioli tua wyth deg y cant (80%) o boblogaeth y byd sy'n golygu mai nhw yw'r mwyafrif byd-eang nawr'. (Campbell Stephens, 2020, ar-lein)

**Hiliaeth** – meddu ar safbwyntiau sy'n cyfateb i wahaniaethu a thriniaeth negyddol o eraill ar sail hil.

**Bwlio Hiliol** – Profiadau o ymddygiad sarhaus dro ar ôl tro ar lafar, yn gorfforol, neu'n gynnil oherwydd lliw croen, cefndir diwylliannol, traddodiadol neu grefyddol neu ethnigrwydd neu ethnigrwydd canfyddedig.

**Llythrennedd Hiliol** – Bod yn llythrennog ynglŷn â materion hiliaeth / hil.

**Trawma Hiliol** – Effeithiau cronol hiliaeth barhaus, sy'n para gydol oes ac yn effeithio ar iechyd a lles corfforol ac emosiynol.

# Cyfeiriadau

## Reference List

Aboud, F. E., & Doyle, A. B. (1996). Does talk of race foster prejudice or tolerance in children? *Canadian Journal of Behavioural Science/Revue canadienne des sciences du comportement*, 28, 161–170. <http://dx.doi.org/10.1037/0008-400X.28.3.161>

Alonzo, M. J. (2020). The Impact of Racism on the Esteem and Efficacy of African American Students. In *Proceedings of a Multidisciplinary Colloquium on* (p. 71).

Apfelbaum, E. P., Sommers, S. R., & Norton, M. I. (2008). Seeing race and seeming racist? Evaluating strategic colorblindness in social interaction. *Journal of Personality and Social Psychology*, 95, 918–932. <http://dx.doi.org/10.1037/a0011990>

Asika, U. (2020) *Bringing up Race. How to raise a kind child in a prejudiced world.* London: Yellow Kite.

Bhavnani, R. (2001) *Rethinking Interventions in Racism.* Oakhill. Trentham Books.

Braun, V., Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3, 77–101.

Campbell-Stephens, R. (2020) *Global Majority; Decolonising the Language and Reframing the Conversation about Race.* Blog. Leeds Beckett. [final-leeds-beckett-1102-global-majority.pdf \(leedsbeckett.ac.uk\)](https://www.leedsbeckett.ac.uk/files/2020/12/final-leeds-beckett-1102-global-majority.pdf)

Childline (2022, online) What are racism and racial bullying? Available online at: <https://www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/crime-law/racism-racial-bullying/>

Cremin, H. (2003). Violence and Institutional Racism in Schools [Review of *Rethinking Interventions in Racism.* *British Educational Research Journal*, 29(6), 929–939. [Review: Violence and Institutional Racism in Schools on JSTOR](https://www.jstor.org/stable/3092939)

Comas-Díaz L. (2016) Racial trauma recovery: a race-informed therapeutic approach to racial wounds. In: Alvarez AN, Liang CTH, Neville HA, eds. *The cost of racism for people of color: contextualizing experiences of discrimination.* Cultural, racial, and ethnic psychology book series. American Psychological Association; :249–272.

Donaldson, M. (1978) *Children's Minds.* London: Fontana

Davis, S. Haughton, C., Chapman, S., Okeke, R., Smith, M., Yafele, A. and Yu, K. (2021) The Recruitment and Retention of teachers from Minority Ethnic backgrounds in Wales. [The recruitment and retention of black, asian and minority ethnic teachers in wales – a qualitative research study. \(gov.wales\)](https://www.gov.wales/government-department/education-skill-sport-and-tourism/education/primary-secondary-education/primary-secondary-education-research-and-evaluation/primary-secondary-education-research-and-evaluation-reports/primary-secondary-education-research-and-evaluation-reports-the-recruitment-and-retention-of-black-asian-and-minority-ethnic-teachers-in-wales-a-qualitative-research-study)

Dukler N, Liberman Z: Children use race to infer who is “in charge.”. *J Exp Child Psychol* 2022, 221:105447, <https://doi.org/10.1016/j.jecp.2022.105447>.

Farahmand, P., Arshed, A. Bradley, M.V. (2020) Systemic Racism and Substance Use Disorders. *Psychiatric Annals*. 50 (11), 494-498.

Garcia, J. A., Sanchez, G. R., Sanchez-Youngman, S., Vargas, E. D., & Ybarra, V. D. (2015). Race As Lived Experience: The Impact of Multi- Dimensional Measures of Race/Ethnicity on the Self-Reported Health Status of Latinos. *Social science research on race*, 12(2), 349–373.

Gibbons FX, Etcheverry PE, Stock ML, Gerrard M, Weng CY, Kiviniemi M, O'Hara RE. Exploring the link between racial discrimination and substance use: what mediates? What buffers? *J Pers Soc Psychol*. 2010 Nov;99(5):785-801. doi: 10.1037/a0019880. PMID: 20677890; PMCID: PMC3314492

Girouard, N., Stack, D.M. & O'Neill-Gilbert, M. (2011) Ethnic differences during social interactions of preschoolers in same-ethnic and cross-ethnic dyads, *European Journal of Developmental Psychology*, 8:2, 185-202, DOI: [Ethnic differences during social interactions of preschoolers in same-ethnic and cross-ethnic dyads: European Journal of Developmental Psychology: Vol 8, No 2 \(tandfonline.com\)](https://doi.org/10.1080/17513758.2011.604444)

Hill, S. (2006) Racial Socialization. In Handel, G. (ed) *Childhood Socialisation*. 2nd edition. NY: Routledge

Joseph-Salisbury R. (2020) Race and racism in English secondary schools. Runnymede Trust. Shah. S. (2013) The Researcher /interviewer in intercultural context: A Social Intruder. *BERJ Research Journal*. 30 (4), 549-57

Kelly DJ, Quinn PC, Slater AM, Lee K, Gibson A, Smith M, Ge L, Pascalis O. Three-month-olds, but not newborns, prefer own-race faces. *Dev Sci*. 2005 Nov;8(6):F31-6. doi: 10.1111/j.1467-7687.2005.0434a.x.

Leman, P.J. and Lam, V.L. (2008) The Influence of Race and Gender on children'

Mandalaywala TM, Tai C, Rhodes M: Children's use of race and gender as cues to social status. *PLoS One* 2020, 15, e0234398, <https://doi.org/10.1371/journal.pone.0234398>.

McEwen, B.S. and Gianaros, P.J. (2010) Central Role of the Brain in Stress and Adaptation: Links to Socioeconomic Status, Health, and Disease. *Annals of the New York Academy of Sciences*, 1186, 190-222. <https://doi.org/10.1111/j.1749-6632.2009.05331.x>

Meehan, H., John, M. Hanna, P. (2021) Understandings of mental health and support for Black male adolescents living in the UK, *Children and Youth Services Review*, Volume 129,106- 192, ISSN 0190-7409, <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2021.106192>

NHS Wales (n.d. online) Webpage. [Adverse Childhood Experiences - Public Health Wales \(nhs.wales\)](https://www.nhs.uk/health-topics/adverse-childhood-experiences/)

Olson KR, Shutts K, Kinzler KD, Weisman KG: Children associate racial groups with wealth: evidence from South Africa. *Child Dev* 2012, 83:1884–1899, <https://doi.org/10.1111/j.1467-8624.2012.01819.x>.

Olusoga, D. (2021) *Black and British. A Forgotten History*. London: Pan MacMillan.

Priest, N., Kavanagh, A., Bécares, L., & King, T. (2019). Cumulative Effects of Bullying and Racial Discrimination on Adolescent Health in Australia. *Journal of Health and Social Behavior*, 60(3), 344–361. <https://doi.org/10.1177/0022146519868847>

Quintana, S. M. (1998). Children's developmental understanding of ethnicity and race. *Applied & Preventive Psychology*, 7, 27–45. [http://dx .doi.org/10.1016/S0962-1849\(98\)80020-6](http://dx.doi.org/10.1016/S0962-1849(98)80020-6)

Sanghera, S. (2021) *Empireland. How Imperialism Has Shaped Modern Britain*. London: Penguin, Viking.

Shay, M., Sarra, G. and Woods, A. (2021) [Strong identities, strong futures: Indigenous identities and well-being in schools - UQ eSpace](https://doi.org/10.1080/00131801.2021.1911111) Strong identities, strong futures: Indigenous identities and well-being in schools. *Indigenous Education in Australia Learning and Teaching for Deadly Futures*. Edited by Marnee Shay and Rhonda Oliver. Abingdon, Oxon United Kingdom: Routledge.63-75

Shonkoff, J.P., Slopen, N, Williams, D.R. (2021) Early Childhood Adversity, Toxic Stress, and the Impacts of Racism on the Foundations of Health. *Annual Review of Public Health* 2021 42:1, 115-134 [Early Childhood Adversity, Toxic Stress, and the Impacts of Racism on the Foundations of Health | Annual Review of Public Health \(annualreviews.org\)](https://doi.org/10.1146/annurev-publhealth-071020-010001)



Smedley, A., & Smedley, B. D. (2005). Race as biology is fiction, racism as a social problem is real: Anthropological and historical perspectives on the social construction of race. *American Psychologist*, 60, 16– 26. <http://dx.doi.org/10.1037/0003-066X.60.1.16>

Smith, W. H. (2010). The impact of racial trauma on African Americans. African American men and boys advisory board.

Sullivan, J., Wilton, L., & Apfelbaum, E. P. (2020, August 6). Adults Delay Conversations About Race Because They Underestimate Children’s Processing of Race. *Journal of Experimental Psychology: General*. Advance online publication. <http://dx.doi.org/10.1037/xge0000851>

UK Government. HMSO (1999) The Stephen Lawrence Inquiry. Report of an inquiry by Sir William MacPherson of Cluny. Available online at: [4262.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](https://www.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/4262/4262.pdf)

United Nations Convention on the Rights of the Child (1989) <https://www.unicef.org/child-rights-convention>

Van Maanen, J. (2011) 2nd edition. *Tales of the Field on Writing Ethnography*. Chicago: UCP Press. Verkuyten, M., & Thijs, J. (2002) Racist victimization among children in The Netherlands: the effect of ethnic group and school, *Ethnic and Racial Studies*, 25:2, 310-331, DOI: [Racist victimization among children in The Netherlands: the effect of ethnic group and school: Ethnic and Racial Studies: Vol 25, No 2 \(tandfonline.com\)](https://doi.org/10.1080/01621450210000000000000000000000)

Wallace S, Nazroo J, Bécarea L. (2016) Cumulative Effect of Racial Discrimination on the Mental Health of Ethnic Minorities in the United Kingdom. *Am J Public Health*. Jul;106(7):1294-300. doi: 10.2105/AJPH.2016.303121. Epub 2016 Apr 14. PMID: 27077347; PMCID: PMC4984732.

Welsh Government (2022) Anti-Racist Wales Action Plan (ARWAP) [Anti-racist Wales Action Plan | GOV.WALES](https://gov.wales/anti-racist-wales-action-plan)

Welsh Government (2022) Curriculum for Wales. <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales>

Welsh Government (2021) Prof Charlotte Williams Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group: final report. [Black, Asian and Minority Ethnic Communities, Contributions and Cynefin in the New Curriculum Working Group: final report | GOV.WALES](https://gov.wales/black-asian-and-minority-ethnic-communities-contributions-and-cynefin-in-the-new-curriculum-working-group-final-report)

Wu, D., Sanchez, S. and Perry, S. (2022) Will talking about race make my child racist? Dispelling myths to encourage honest white US parent-child conversations about race and racism. *Current Opinion in Psychology* 2022, 47:101420 <https://doi.org/10.1016/j.copsyc.2022.101420>

# Atodiadau

## Cwestiynau'r Grŵp Ffocws

Teitl y prosiect: *Diogelu Gwent – Ymchwil Ranbarthol i Ddigwyddiadau Hiliol / Bwlio Hiliol mewn Ysgolion ac Argymhellion ar gyfer Ymarfer, Polisi ac Ymchwil*

Enw'r Prif Ymchwilyr:

Chantelle Haughton a Dr Susan Davis

Manylion Cyswllt: [chaughton@cardiffmet.ac.uk](mailto:chaughton@cardiffmet.ac.uk) neu [sdavis@cardiffmet.ac.uk](mailto:sdavis@cardiffmet.ac.uk)

Bydd y sgysiau grŵp ffocws yn lled-strwythuredig i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd a sensitifrwydd.

## Cwestiynau i ddysgwyr, rhieni ac ymarferwyr:

- Sut fydddech chi'n disgrifio beth yw hiliaeth?
- Sut fydddech chi'n disgrifio beth yw bwlio hiliol?
- A wnewch chi ddweud wrthym am hiliaeth yn eich ysgol ac yn eich cymuned?
- A wnewch chi ddweud wrthym am eich profiadau o fwlio hiliol yn yr ysgol ac yn eich lleol cymuned leol?
- A ydych chi wedi adrodd am ddigwyddiad hiliol?
- A ydych chi'n adnabod rhywun yn yr ysgol y gallech siarad ag ef / hi am hiliaeth neu fwlio hiliol?
- Beth oedd eich profiad o adrodd? A beth ddigwyddodd ar ôl i chi ei adrodd?
- Os na wnaethoch chi adrodd am ddigwyddiad, pam na wnaethoch chi?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallai prosesau ar gyfer adrodd fod yn well?
- Beth allai ddigwydd yn yr ysgol yn eich barn chi i wella'r diwylliant o hiliaeth i symud i wrth-hiliaeth?
- Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i atal bwlio hiliol?
- Beth allai ddigwydd yn y gymuned yn eich barn chi i symud diwylliant hiliaeth i fod yn wrth-hiliol?
- Beth ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud yn y gymuned i atal digwyddiadau hiliol neu fwlio hiliol?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi siarad â ni amdano?
- Bydd y dysgwyr hefyd yn cael eu gwahodd i fynegi eu meddyliau / teimladau yn dawel ar bapur yn ystod y sesiynau os byddan nhw'n dewis gwneud hynny, gyda phinnau lliw a phensiliau ar gael.

## **Cwestiynau/awgrymiadau ychwanegol i rieni/ymarferwyr:**

- Beth sydd wedi digwydd pan fydd digwyddiadau hiliol neu fwlio hiliol wedi cael eu hadrodd i chi?
- Pam ydych chi'n meddwl bod hynny?
- Beth arall ydych chi'n meddwl y gellid ei wneud i atal digwyddiadau hiliol a bwlio hiliol i wella profiadau plant a phobl ifanc?
- Beth yw eich syniadau i wneud ysgolion a chymunedau yn fwy atebol am y gwelliannau hyn?
- A oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud neu ei ofyn?

*Sylwer, oddi yma i lawr, dyma'r addasiadau i'r cwestiynau a drafodwyd o'r gwaith ehangach. Gall ymchwilwyr ychwanegu unrhyw un o'r awgrymiadau ychwanegol hyn os oes angen i ymestyn y sgwrs.*

## **Awgrymiadau ychwanegol – Athrawon/Staff ALI**

1. A ydych chi wedi cael unrhyw brofiad o ddelio â hiliaeth neu fwlio hiliol yn eich ysgol?
2. A wnaethoch chi adrodd amdano? Os do, beth ddigwyddodd? Os na, pam ddim? Beth wnaethoch chi?
3. Beth weithiodd yn dda am sut gwnaethoch chi a/neu'r ysgol ymateb a beth allai fod yn well?
4. A ydych chi'n teimlo'n hyderus yn ymateb i hiliaeth neu fwlio hiliol? Beth fyddai'n helpu?

## **Awgrymiadau ychwanegol – rhieni/oedolion**

1. A ydych chi wedi cael unrhyw brofiadau o hiliaeth neu fwlio hiliol yn eich ysgol?
2. A wnaethoch chi adrodd amdano? Os do, beth oedd yr ymateb. Os na, pam ddim? Beth wnaethoch chi?
3. Yn eich profiad chi, sut gwnaeth yr ysgol ymateb i'r hiliaeth neu'r bwlio hiliol?
4. Beth oedd yn dda/anodd am sut ymatebodd yr ysgol, neu beth allai fod yn well?

## **Set DATA – ar gael ar gais i'r cyllidwyr ymchwil (o fewn cyfyngiadau moesegol)**